


Taflenni Gweithgaredd Uned 3

Templed o Fanana

Taflen Gweithgaredd 1



Cardiau Senario

Taflen Gweithgaredd 2a

Senario 1 – Newid Hinsawdd

Cefndir

Mae tymereddau'r byd yn codi oherwydd y newid yn yr hinsawdd. Mae llawer o wyddonwyr yn credu y bydd tywydd eithafol, er enghraifft tywydd poeth, sychder a llifogydd, yn gwaethygu ac yn digwydd yn fwy aml, ac y bydd y tymhorau yn dod yn fwy anodd eu rhagweld. Bydd hyn yn ei gwneud yn fwy anodd i lawer o ffermwyr tyddynnod y byd dyfu eu cnydau.

Cam Gweithredu

Mae yna sychder, ac nid yw eich bananas yn cael digon o law. Mae eich cnwd wedi dioddef yn wael, ac mae gennych lawer llai o fananas i'w gwerthu. Mae hyn yn golygu bod gennych lai o arian i gynnal eich teulu ac i fuddsoddi yng nghnwd y flwyddyn nesaf.

Yr hyn y mae'n rhaid i chi wneud

Bydd hanner y cnydau yr ydych wedi'u cwblhau hyd yma yn y gêm yn cael eu dinistrio. Rhaid i chi hefyd eistedd ar eich dwylo am 30 eiliad pan fydd y gêm yn aildechrau.

Senario 2 – Prisiau bananas yn gostwng

Cefndir

Ffermwyr tyddynnod yw mwyafrif y cynhyrchwyr bwyd yn y byd. Gall prisiau bwyd godi a gostwng, ond mae hyn fel arfer y tu hwnt i reolaeth y ffermwyr hyn. Ar eu pen eu hunain, ychydig iawn o bŵer sydd gan y ffermwyr hyn i fynnu prisiau tecach gan gwmnïau anferth fel archfarchnadoedd.

Cam Gweithredu

Mae pris y farchnad am fananas wedi gostwng. Mae hyn yn golygu bod swm yr arian y gallwch ei gael am eich bananas yn llai, a bod gennych lai o arian i gynnal eich teulu. Rydych yn ei chael hi'n anodd prynu bwyd iddynt ei fwyta, a meddyginiaeth pan fyddant yn sâl, yn ogystal â thalu ffioedd ysgol eich plant. Nid oes gennych unrhyw gynilion, felly bydd yn rhaid i chi ddefnyddio'r arian yr oeddech yn bwriadu ei fuddsoddi mewn prynu gwrtait hyspwrdd ar gyfer eich cnwd bananas.

Yr hyn y mae'n rhaid i chi ei wneud

Bydd hanner eich sisyrnau a'ch pensiliau yn cael eu rhoi o'r neilltu.

Cardiau Senario

Taflen Gweithgaredd 2b

Senario 3 – Rydych yn sâl yn ystod y cynhaeaf bananas

Cefndir

Mae bywyd yn anodd i lawer o ffermwyr tyddynnod y byd. Mae'r ffermwyr hyn yn aml yn ei chael hi'n anodd ennill digon o arian i'w cynnal eu hunain a'u teuluoedd. Weithiau, nid oes digon o arian i brynu bwyd a meddyginiaeth, nac i anfon eu plant i'r ysgol. Fel arfer, nid oes gan y ffermwyr unrhyw yswiriant, felly pan fydd pethau'n mynd o chwith, nid oes neb i helpu.

Cam Gweithredu

Rydych yn sâl yn ystod y cynhaeaf bananas. Nid oes gennych ddigon o arian i dalu am feddyginiaeth i'ch helpu i wella. Nid oes gennych chwaith ddigon o arian i dalu i rywun arall gynaeafu'r bananas ar eich rhan. Mae eich brawd a'ch gwraig a'ch plant yn gallu rhoi help llaw, ond nid yw rhai o'r bananas yn cael eu tynnu mewn pryd. Mae'n rhaid i'r bananas gael eu tynnu pan fyddant yn wyrdd, er mwyn iddynt bara'r daith hir i'r DU.

Yr hyn y mae'n rhaid i chi ei wneud

Bydd hanner y cnydau yr ydych wedi'u cwblhau yn y gêm hyd yma yn cael eu dinistrio.

Senario 4 – Masnach Deg

Cefndir

Mae Masnach Deg yn golygu bod ffermwyr a gweithwyr yn cael pris tecach am y gwaith y maent yn ei wneud. Mae llawer o gynhyrchion Masnach Deg ar gael, er enghraifft coffi, te, siwgr, siocled a bananas. Mae Masnach Deg hefyd yn helpu i ddiogelu'r amgylchedd ac i wella amodau gwaith ffermwyr tyddynnod, yn ogystal â gweithwyr ar ffermydd mawr. Trwy ymuno â ffermydd eraill mewn cwmni cydweithredol Masnach Deg, mae gan ffermwyr fwy o bŵer i negodi prisiau tecach â'r cwmnïau mawr sy'n prynu eu cynhyrchion. Mae'r cwmni cydweithredol hefyd yn cael ychydig o arian ychwanegol, o'r enw premiwm Masnach Deg, y gellir ei ddefnyddio i helpu'r gymuned gyfan.


Cam Gweithredu

Rydych 'nawr yn rhan o gwmni cydweithredol Masnach Deg. Mae hyn yn golygu eich bod yn cael pris tecach am eich bananas. Rydych wedi gallu defnyddio'r arian ychwanegol i brynu cyfarpar newydd a gwrtaith ar gyfer eich fferm, sy'n golygu y byddwch yn gallu tyfu mwy o fananas yn y dyfodol. Rydych wedi cael digon o arian i anfon eich plant i'r ysgol, ac i gynilo ychydig ar gyfer y dyfodol. Mae eich cymuned hefyd yn cael premiwm Masnach Deg, ac mae pawb yn penderfynu rhoi'r arian tuag at adeiladu canolfan iechyd newydd.

Yr hyn y mae'n rhaid i chi ei wneud

Byddwch yn cael sisyrnau, pensiliau a phapur ychwanegol.

Rancio camau gweithredu



Taflen Gweithgaredd 3

Y weithred “orau”

Y weithred “waethaf”

<p>Trefnwch egwyl neu frecwast Masnach Deg yn yr ysgol, gyda byrbrydau Masnach Deg iach.</p>	<p>Rhowch gynnig ar ryseitiau Masnach Deg yn yr ysgol neu gartref. Edrychwch ar <i>Syniadau trawsgwricwlaidd</i> ar gyfer rysáit cacen banana Masnach Deg.</p>
<p>Cynhaliwch wasanaeth i godi ymwybyddiaeth o Fasnach Deg yn yr ysgol.</p>	<p>Addysgwch ddsbarth arall am yr hyn yr ydych wedi ei ddysgu am fananas a Masnach Deg.</p>
<p>Rhannwch yr hyn yr ydych wedi ei ddysgu trwy ysgrifennu postiad blog neu erthygl ar gyfer cylchlythyr yr ysgol.</p>	<p>Trefnwch arwerthiant cacennau Masnach Deg yn eich ysgol.</p>
<p>Ewch i archfarchnad leol, neu ysgrifennwch ati, er mwyn cael gwybod pa eitemau Masnach Deg y mae'n eu gwerthu, a'i hannog i stocio mwy ohonynt.</p>	<p>Cofrestrwch eich ysgol ar gyfer y Wobr Ysgolion Masnach Deg. Gweler: schools.fairtrade.org.uk/fairtrade-schools-awards/</p>
<p>Dyluniwch boster am Fasnach Deg, i'w arddangos yn eich ystafell ddsbarth neu yn yr ysgol.</p>	<p>Eich syniad:</p>